YSGOL PENCAE
Highfields, Gilian Road
Llandaf, Caerdydd
CF5 2QA
Ffôn: 029 20563851
E-bost: ysgolpencae@cardiff.gov.uk

@ysgolpencae
Dilynwch ni ar Trydar
Follow us on Twitter

Cylchlythyr Rhif 14 / *Newsletter No 14*
16.12.2016

Annwyl Riant neu Warcheidwad / *Dear Parent or Guardian*

Diolch

Hoffem ddiolch i chi ar lefel broffesiynol a phersonol am eich cefnogaeth yn ystod y tymor hwn – rwy'n gwerthfawrogi'n fawr. Dymunaf Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd/*I would like to thank you on both a professionally and personal level for your support this term – greatly appreciated. I wish you a Merry Christmas and a Happy New Year to you all.*

Gwasanaeth Nadolig yr Adran Iau yn y Gadeirlan/*Juniors Christmas Service in the Cathedral*

Hyderaf i chi gyd fwynhau'r gwasanaeth arbennig a chofiadwy hwn/*I'm confident that you all enjoyed this special and memorable service.*

Diolch o galon unwaith yn rhagor i Rob, Lucy, Rhiannon, Miss Burnell a Mrs Hayes am gyfeilio i safon broffesiynol unwaith yn rhagor eleni – gwych!/*A big thank you to Rob, Lucy, Rhiannon, Miss Burnell and Mrs Hayes once again this year for accompanying to such a professional standard – excellent!*

Ymddeoliad/*Retirement*

Diolchwn i Mrs R M Williams am ei gwaith a'i chefnogaeth fel athrawes am dros bum mlynedd ar hugain yn Ysgol Pencae a dymunwn pob hapusrwydd iddi ar ei hymddeoliad/*We thank Mrs R M Williams for her work and support at Ysgol Pencae for over 25 years and we wish her well in her retirement.*

Cymru Fyw – BBC Radio Cymru

Cafodd disgyblion Blwyddyn 2 eu cyfweld am bopeth sy'n ymwneud â'r Nadolig yr wythnos hon. Cadwch lygad ar wefan BBC Cymru Fyw neu dilynwch BBC Cymru Fyw ar Facebook yn ddyddiol – maen nhw'n werth eu gweld/*Year 2 pupils were interviewed this week regarding everything to do with Christmas. Keep an eye on BBC Cymru Fyw website or follow BBC Cymru Fyw on Facebook on a daily basis – they are well worth watching.*

Diwrnod Siwmper Nadolig/*Christmas Jumper Day*

Diolch i bawb am eu cyfraniadau heddiw i elusennau Achub y Plant a Thŷ Hafan. Codwyd £110.20/*Thank you all for your contributions to the Save the Children and Tŷ Hafan charities. £110.20 was raised.* Diolch yn fawr iawn!

Diolch hefyd i Aled Wyn am y disgo p'nawn 'ma/*A big thank you also to Aled Wyn for the disco this afternoon!*

Côr/*Choir*

Diolch i aelodau'r Côr am ddiddanu cynulleidfaoedd yn ystod yr wythnosau diwethaf: Cwrt yr Insole, Cwrt Pritchard, Cyngerdd George Thomas, Cyngerdd yng Ngolau Cannwyll ynghyd â pherfformio yng Ngŵyl Gaeaf Caerdydd neithiwr. Diolch arbennig i Mr Williams ac i Miss Burnell am ddarparu'r profiadu cofiadwy hyn iddyn nhw ynghyd â'u dysgu i safon uchel – ardderchog!/*Thank you to the Choir members for the entertaining numerous audiences in the last couple of weeks: Insole Court, Pritchard Court, George Thomas concert, Candles in Candlelight concert as well performing in Winter Wonderland last night. A big thank you to Mr Williams and Miss Burnell for arranging these memorable experiences for them and also preparing them to such a high standard – excellent!*

Cyfranwyd £80 o elw'r cyngerdd Carolau yng Ngolau Cannwyll i'r digartref trwy law Capel Salem/*A contribution of £80 from the Carols in Candlelight concert has been donated to the homeless via Capel Salem.*

Ffair Nadolig/*Christmas Fair*

Diolch o galon i bawb am eu cefnogaeth a braf oedd gweld cynifer wedi mynychu/*A big thank you to everyone who attended the fair. It was so nice to see so many there.*

Gwnaethpwyd elw o thua £1800 – ardderchog! Bydd yr arian hwn yn mynd tuag at y gost o brynu mwy o liniaduron i'r disgyblion /*A profit of £1800 was made – excellent! This will go towards the cost of buying more laptops for the pupils.*

Llau pen/*Head lice*

Mae llau pen yn broblem enfawr yn yr ysgol! Archwiliwch wallt eich plentyn yn ddyddiol dros y gwyliau os gwelwch yn dda ac anelwn at flwyddyn newydd ble na fydd llau pen yn bodoli yn 2017/*Head lice is an enormous problem in school! Please check your child's hair on a daily basis during the holidays and we'll aim to have a nit free 2017!*

Wele isod wybodaeth a dolennau perthnasol/*Please see information below with some relative hyperlinks:*

Annwyl Syr/Fadam,

Rwy'n Cydlynydd Ymgysylltu Ar-lein y tîm Partneriaid mewn Gofal Iechyd (PIH) ar gyfer Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Rhan o rôl y tîm yw darparu gwybodaeth iechyd trwy'r gwasanaeth Galw Iechyd Cymru (sy'n rhan o Wasanaeth Ambiwlans Cymru).

Gwefan Galw Iechyd Cymru yw prif borth y GIG yng Nghymru ar gyfer gwybodaeth iechyd defnyddwyr ac mae'n ffynhonnell o wybodaeth y gellir cynorthwyo'r cyhoedd wrth reoli iechyd eu hunain a'u teuluoedd.

Rydym yn ysgrifennu i roi gwybod i chi am wybodaeth ac adnoddau sydd ar gael ar wefan

Galw Iechyd Cymru www.galwiechydcymru.wales.nhs.uk a allai fod yn ddefnyddiol i chi fel ysgol ac i rieni/gwarcheidwaid.

Mae gan y wefan wyddoniadur A-Y o gyflyrau, profion a thriniaethau â phynciau megis llau pen a brech yr ieir. Mae gennym hefyd yr amserlen brechu plant llawn a gwybodaeth am bob brechlyn.

Un o nodweddion mwyaf newydd yw y gwiriwr symptom llau pen a fydd yn caniatáu i rieni/gwarcheidwaid i asesu symptomau eu plentyn ac yn rhoi gwybodaeth a chyngor defnyddiol ar beth i'w wneud nesaf.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech gyfeirio rhieni a chydweithwyr i ein gwefan. Hefyd, beth am ein dilyn ar Trydar @NHSDirectWales ac ein hoffi ni ar Facebook – NHS Direct Wales.

Cofion cynnes,
Nia

Dear Sir/Madam,

I'm an Online Engagement Coordinator from the Partners in Healthcare (PIH) team for the Welsh Ambulance Service. Part of the team's role is to deliver health information through the NHS Direct Wales service (which is part of the Welsh Ambulance Service).

The NHS Direct Wales website is the main NHS portal in Wales for consumer health information and is a source of information that can assist the public in managing their own and their families health.

We are writing to let you know about some of the information and resources available on the NHS Direct Wales website www.nhsdirect.wales.nhs.uk which may be useful for you as a school and to parents/guardians.

The website has an A-Z encyclopaedia of conditions, tests and treatments with topics like head lice and chickenpox . We also have the full childhood vaccination schedule and information about each vaccine.

One of the newer features is a head lice symptom checker which will allow parents/guardians to assess their child's symptoms and give useful information and advice on what to do next.

We'd be grateful if you could signpost parents and colleagues to our website. Also why not follow us on Twitter @NHSDirectWales and like us on Facebook - NHS Direct Wales.

Kind regards,
Nia Barlow
Online Engagement Coordinator / ***Cydlynydd Ar-lein***
Partners in Healthcare Team / *Tîm Partneriaid Mewn Gofal Iechyd*
Quality, Safety & Patient Experience Directorate / *Cyfarwyddiaeth Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf*
Welsh Ambulance Service / *Gwasanaeth Ambiwlans Cymru*
☎ 01792 776252 - Ext 45441

✉ nia.barlow@wales.nhs.uk
www.ambulance.wales.nhs.uk www.nhsdirect.wales.nhs.uk

Cyflwyniad Dramatig/*Theatrical Performance*

Mae'n fwriad gennym i gymryd rhan yng nghystadleuaeth Cyflwyniad Dramatig yn yr Eisteddfod yr Urdd eleni. Thema'r cyflwyniad deng munud hwn yw 'Yr Allwedd'. Tybed os oes gan unrhyw un brofiad o sgriptio perfformiad o'r fath? Byddem yn gwerthfawrogi pe byddech yn gallu cydweithio gyda ni er mwyn cael sgript parod yn fuan yn y flwyddyn newydd. Cofiwch gysylltu gyda ni/*We intend to participate in the Theatrical Performance competition in the Urdd Eisteddfod this year.* 'Yr Allwedd'/ *The Key' is the theme this year. I wonder if anyone has past experience in scripting for this type of genre? We would greatly appreciate if you could cooperate with us in order to write a script early in the new year? Please get in touch with us.*

Clybiau Ar Ôl Ysgol / *After School Clubs*

Wythnos yn dechrau / *Week beginning* – 04.01.17:

Dim Clybiau/*No Clubs*

Wythnos yn dechrau / *Week beginning* – 09.01.17:

Côr / *Choir*

Bl/*Yr* 4 – 6:	15.30pm – 16.30pm Dydd Llun, 09 Ionawr / *Monday, 09 January*

Clwb Dawns / *Dance Club* (Cwmni *Dance Fit Company)*

Bl/*Yr* 5 – 6:	15.30pm – 16.30pm Dydd Mawrth, 10 Ionawr / *Tuesday, 10 January*

Clwb Chwaraeon / *Sports Club*

Bl/*Yr* 3 – 6:	15.30pm – 16.30pm Dydd Mawrth, 10 Ionawr / *Tuesday, 10 January*
Clwb Jiwdo / *Judo Club*	15.30pm – 16.30pm Dydd Mercher, 11 Ionawr / *Wednesday, 11 January*
Clwb / *Mad Science Club*	15.30pm – 16.30pm Dydd Mercher, 11 Ionawr / *Wednesday, 11 January*
Clwb Hwb / *Hwb Club* (aelodau Clwb Hwb yn unig/ *Clwb Hwb members only*)	15.30pm – 16.30pm Dydd Iau, 12 Ionawr / *Thursday, 12 January*

Dyddiadau pwysig / *Important dates*

04.01.17 (Mercher/*Wednesday*) – Diwrnod cyntaf yn ôl i'r disgyblion/*First day back for pupils*

Diolch yn fawr a 'Dolig Llawen gan holl staff a Llywodraethwyr Ysgol Pencae,

R R Thomas
Pennaeth